




Gallwn ni ei weithio allan

Cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru 2021



8 i 12 Tachwedd 2021 - Ar-lein ar draws Cymru



Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Am Rydyn ni'n gallu ei weithio allan

Fe fydd ein Cynhadledd Flynyddol 2021 – 'Rydyn ni'n gallu ei weithio allan' yn edrych ar beth mae gwaith, swyddi a chyflogaeth yn ei feddwl i bobl gydag anabledd dysgu. Fe fydd yn cael ei chynnal yn gyfan gwbl ar-lein gyda chymysg o sesiynau ar-lein ar y thema swyddi a chyflogaeth.

Fe fydd y gyfres o ddiwyddiadau yn edrych ar:

- Profiadau bywyd go iawn
- Rhwystrau i waith
- Cefnogaeth i waith
- Cael eich gwerthfawrogi
- Pa newid sydd ei angen

Rydyn ni eisiau dathlu gwaith da a hefyd codi ymwybyddiaeth o'r problemau mae llawer o bobl yn eu wynebu.

Cynhaliwn 5 sesiwn ar-lein, un yr yn ar y pwyntiau uchod, drwy ddefnyddio Zoom, Facebook Live a ffrydio byw ar Twitter i gyflwyno ffilmiau byr, cyflwyniadau, gweithdai ar-lein, cwisiau a rhagor!

Mae ein cynadledau blynyddol yn y gorffennol wedi bod yn wahanol i gynadledau eraill fel enghraifft o fod yn gynhwysol ac yn hygyrch. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein digwyddiad yn gyfeillgar ac yn groesawus i bawb, os oes gennych anabledd dysgu neu beidio

Mae llawer o'n siaradwyr ac arweinwyr gweithdai yn arbenigwyr oherwydd eu profiadau eu hunain o fod ag anabledd dysgu, a chredwn bod pawb yn elwa o gymryd yr ymagwedd yma.

Pam cefnogi Anabledd Dysgu Cymru?

Mae pob person gydag anabledd dysgu yn unigryw gyda gobeithion, breuddwydion ac ofnau.. Ond dychmygwch peidio bod â rheolaeth a dewis yn eich bywyd fel ag sydd gan bobl eraill, yn wynebu heriau a rhagfarn yn ddyddiol. Dyma beth mae nifer o bobl gydag anabledd dysgu yn ei wynebu. Mae tua 6 o bob 100 o bobl yng Nghymru yn cael eu geni gydag anabledd dysgu. Mae'r rhan fwyaf o bobl gydag anabledd dysgu yn cael eu trin fel pobl sydd yn 'wahanol'. Ein nod ydy newid hyn a chreu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pob plentyn ac oedolyn gydag anabledd dysgu.

Sut y gallwch elwa

Mae cefnogi ein cynhadledd drwy nawdd yn rhoi cyfle i chi gyrraedd a dylanwadu ar bobl a chyrrff yn y gymuned anabledd dysgu yng Nghymru. Gall hefyd eich helpu i:

- Cynyddu amlygrwydd eich corff
- Targedu cyrrff yn y maes yma mewn dull cost effeithiol
- Darganfod cleientiaid, partneriaid a chwsmeriaid newydd
- Cynyddu eich cyfran yn y farchnad di-elw
- Adeiladu perthnasoedd gyda chyrrff sector gwirfoddol eraill
- Dangos eich ymrymwiad i sector di-elw cryf

Cipolwg ar gyfleoedd hyrwyddo

I hyrwyddo eich corff yn **Rydyn ni'n gallu ei weithio allan** gallwch ddod yn noddwr cyfres neu yn noddwr sesiwn.

Hyrwyddir noddwr cyfres ym mhob sesiwn a gynhaliwn rhwng 8-12 Tachwedd.

Hyrwyddir noddwr cyfres yn y sesiwn neu sesiynau a ddewiswch.

	Noddwr cyfres	Noddwr sesiwn
Diolchir i'ch corff fel cefnogwr ym mhob sesiwn o'r gyfres.	✓	
Dangosir eich logo ym mhob sesiwn o'r gyfres.	✓	
Mae dolen i'ch gwefan yn cael ei gynnwys yn y deunyddiau a anfonir i gyfranogwyr ym mhob sesiwn o'r gyfres.	✓	
Diolchir i'ch corff fel cefnogwr yn eich sesiwn unigol.	✓	✓
Dangosir eich logo yn eich sesiwn unigol.		✓
Mae dolen i'ch gwefan yn cael ei gynnwys yn y deunyddiau a anfonir i gyfranogwyr yn eich sesiwn unigol.		✓
Rhestrir eich corff a dangosir logo eich corff fel cefnogwr swyddogol ar ein gwefan.	✓	✓

Noddwr Cyfres

£1000 + VAT

Fel noddwr y gyfres o sesiynau fe fyddwch yn cael

- Diolch i'ch corff fel cefnogwr pob sesiwn yn y gyfres.
- Dangosir eich logo ym mhob sesiwn o'r gyfres.
- Fe fydd dolen i'ch gwefan yn gynwysiedig yn y deunyddiau a anfonir at gyfranogwyr pob sesiwn yn y gyfres.
- Caiff eich corff ei restru fel cefnogwr swyddogol ar ein gwefan
- Gofod wedi'i warantu ym mhob sesiwn o'r gyfres.

Fe fyddwn yn sicrhau bod pawb yn gwybod cymaint rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gydnabod eich corff fel y prif noddwr mewn unrhyw sylw yn y wasg a gan gaqdeirydd y digwyddiad yn ystod y digwyddiad.

Gallwch ein helpu i sicrhau ein bod yn darparu cynhadledd sydd yn llawn o gyflwyniadau a gweithdai rhyngweithiol a llawn gwybodaeth gyda'ch nawdd

Nawdd Sesiwn

£250 + VAT y sesiwn

Fel noddwr fe fyddwch yn cael

- Diolch i'ch corff fel cefnogwr yn eich sesiwn unigol o'r gyfres.
- Dangosir eich logo yn eich sesiwn unigol o'r gyfres.
- Fe fydd dolen i'ch gwefan yn gynwysiedig yn y deunyddiau a anfonir at gyfranogwyr eich sesiwn unigol yn y gyfres.
- Diolchir i'ch corff fel cefnogwr yn eich sesiwn unigol.
- Caiff eich corff ei restru fel cefnogwr swyddogol ar ein gwefan.
- Gofod wedi'i warantu yn eich sesiwn unigol.

Fe fyddwn yn sicrhau bod pawb yn gwybod cymaint rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gydnabod eich corff fel y prif noddwr mewn unrhyw sylw yn y wasg a gan gaqdeirydd y digwyddiad yn ystod y digwyddiad.

Cysylltu gyda ni

I drefnu eich nawdd cysylltwch gyda Inacia Rodrigues ar 029 2068 1174 neu e-bostiwch inacia.rodrigues@ldw.org.uk

Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG

www.ldw.org.uk



Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru